I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC24-17

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

# CYFARWYDDYDAU CYFARWYDDIADAU I FYRDDAU IECHYD LLEOL AC YMDDIRIEDOLAETHAU GIG YNG NGHYMRU 2003 A CHYFARWYDDIADAU CYFLWYNO O DAN REOLAETH FEDDYGINIAETHAU NEWYDD I'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU 2009 (DIWYGIO) (CYMRU) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Ebrill 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3), 19(1), 174(10) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru 2003 a Chyfarwyddiadau Cyflwyno o dan Reolaeth Feddyginiaethau Newydd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2009 (Diwygio) (Cymru) 2024.

(**1**) 2006 (p. 42).

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Mai 2014 ac maent yn gymwys mewn perthynas â phob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

(3) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "Cyfarwyddydau 2003" ("*the 2003 Directions*") yw'r Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, dyddiedig 23 Hydref 2003, fel y'u diwygiwyd(**1**);

ystyr "Cyfarwyddydau 2009" ("*the 2009 Directions*") yw Cyfarwyddiadau Cyflwyno o dan Reolaeth Feddyginiaethau Newydd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2009(**2**);

ystyr "GSFCG" ("*AWMSG*") yw Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan;

ystyr "NICE" ("*NICE*") yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal;

ystyr "Penderfyniad Gwerthuso Terfynol" ("*Final Appraisal Determination*") yw canllawiau drafft terfynol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ynghylch defnyddio ymyrraeth gofal iechyd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a gyhoeddir yn unol â gweithdrefnau cyhoeddedig y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

**Diwygio Cyfarwyddydau 2003**

**2.**—(1) Mae Cyfarwyddydau 2003 wedi eu diwygio yn unol ag is-baragraff (2).

(2) Ar ôl paragraff 2B(2) mewnosoder—

"(3) Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 i sicrhau bod ymyrraeth gofal iechyd ar gael o fewn cyfnod gweithredu o 2 fis yn gymwys os yw un neu ragor o'r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys—

(a) bod NICE yn estyn y cyfnod gweithredu fel y'i cadarnheir yn y Penderfyniad Gwerthuso Terfynol, neu

(b) bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu estyn y cyfnod gweithredu.

(4) Os yw un o'r amgylchiadau a restrir ym mharagraff 2B(3) yn gymwys, bydd y cyfnod gweithredu arferol o 2 fis ar gyfer cyflwyno'r ymyrraeth gofal iechyd yn cael ei ddisodli gan y cyfnod estynedig a argymhellir gan NICE neu Weinidogion Cymru."

(**1**) Diwygiwyd Cyfarwyddydau 2003 gan y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru dyddiedig 23 Rhagfyr 2003, 4 Mawrth 2004, 8 Chwefror 2005, 3 Ebrill 2006, 25 Hydref 2006, 19 Mawrth 2009, 10 Mawrth 2010 a 26 Ebrill 2017.

(**2**) 2009 Rhif 9 a ddiwygiwyd dyddiedig 26 Ebrill 2017.

**Diwygio Cyfarwyddydau 2009**

**3.**—(1) Mae Cyfarwyddydau 2009 wedi eu diwygio yn unol ag is-baragraff (2).

(2) Ar ôl paragraff 2A(2) mewnosoder—

“(3) Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 i sicrhau bod meddyginiaeth ar gael o fewn cyfnod gweithredu o 2 fis yn gymwys os yw un neu ragor o’r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys—

(a) bod GSFCG wedi argymell bod y cyfnod gweithredu yn cael ei estyn, neu

(b) bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu estyn y cyfnod gweithredu.

(4) Os yw un o’r amgylchiadau a restrir ym mharagraff 2A(3) yn gymwys, bydd y cyfnod gweithredu arferol o 2 fis ar gyfer cyflwyno’r feddyginiaeth yn cael ei ddisodli gan y cyfnod estynedig a argymhellir gan GSFCG neu Weinidogion Cymru.”



Andrew Evans
Y Prif Swyddog Fferyllol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Ebrill 2024